**Atodiad**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Pwyllgor Rhanbarth Gorllewin De Cymru**
**Adroddiad ar y Cyfnod Mai 2005 i Fawrth 2007**

## Cyflwyniad

1. Cyfarfu Pwyllgor Rhanbarth Gorllewin De Cymru am y tro cyntaf ar 20 Mai 2005, yn dilyn penderfyniad y Cynulliad i gynyddu'r nifer o bwyllgorau rhanbarth i bump, i gydfynd â phum rhanbarth etholaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rhanbarth yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ac ardaloedd bach Rhondda CynonTaf  a Bro Morgannwg.

2. Sefydlwyd y Pwyllgorau Rhanbarthol dan s63 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 10.  Mae Rheol Sefydlog 10 yn nodi mai eu rôl yw cynghori'r Cynulliad ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau a gwaith cyrff cyhoeddus yno. Rhaid i bwyllgorau rhanbarthol gyfarfod o leiaf ddwywaith bob blwyddyn yn y rhanbarth.

3. Mae 11 o aelodau ar y Pwyllgor:

| | |
|---|---|
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Edwina Hart | Gwyr |
| Carwyn Jones | Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |

Yn unol ag arfer y pwyllgorau rhanbarthol fe newidiodd y Cadeirydd ar ôl y flwyddyn gyntaf. Etholwyd Janet Davies fel Cadeirydd o fis Mai 2005 hyd Fehefin 2006, pan etholwyd Janice Gregory.

## Y Cyfarfodydd

4. Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod chwe gwaith; mae'r manylion wedi'u nodi isod. Mae'r cyfarfodydd wedi canolbwyntio ar un pwnc, gyda nifer o sefydliadau yn rhoi cyflwyniadau gyda thrafodaeth yn dilyn a chwestiynau. Cafodd aelodau'r cyhoedd eu hannog i gymryd rhan yn y sesiwn gwestiynau a thrafod ac mewn rhai cyfarfodydd mae'r cyhoedd wedi gallu rhoi eu barn a gofyn cwestiynau i Aelodau ar unrhyw bwnc sydd o fewn cylch gwaith y Cynulliad Cenedlaethol.

5. Dewiswyd y pynciau ar gyfer y cyfarfodydd gan y Pwyllgor fel materion ble y gallai'r safbwynt lleol roi gwybodaeth o ran polisi Llywodraeth y Cynulliad, neu ble'r oedd un o bwyllgorau pwnc y Cynulliad yn gwneud adolygiad o bolisi Llywodraeth y Cynulliad. Yn dilyn pob cyfarfod mae'r Cadeirydd wedi nodi cynnwys y cyfarfod unai wrth y Gweinidog perthnasol neu Gadeirydd y pwyllgor pwnc.

**20 Mai 2005**
**Lleoliad:** Canolfan Dylan Thomas, Abertawe
**Pwnc:** Adfywio Economaidd y Cymoedd

Yna ysgrifennodd y Cadeirydd at Andrew Davies AC, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ac i Weinidogion eraill y Cabinet yn tynnu eu sylw at y materion a godwyd yn y cyfarfod.

**14 Hydref 2005**
**Lleoliad:** Y Ganolfan Ddinesig, Castell-nedd
**Pwnc:** Trefniadau Etholiadol yng Nghymru

Nododd y Cadeirydd gynnwys y cyfarfod wrth Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n gwneud prosiect craffu ar y pwnc.

**17 Mawrth 2006**
**Lleoliad:** Neuadd Pencoed, Pen-y-Bont ar Ogwr
**Pwnc:** Addysg i rai rhwng 16 a 19 oed, gan gyfeirio'n arbennig at Fagloriaeth Cymru.

Ar ôl y cyfarfod ysgrifennodd y Cadeirydd at Jane Davidson AC, y Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, a chopïo'r llythyr i Peter Black AC Cadeirydd y pwyllgor pwnc.

**9 Mehefin 2006**
**Lleoliad:** Neuadd Gymunedol Newydd , Gwaun Cae Gurwen
**Pwnc:** Ynni

Ysgrifennodd y Cadeirydd at Andrew Davies AC, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau yn nodi'r prif faterion oedd yn deillio o'r cyfarfod.

**20 Hyderf 2006**
**Lleoliad:** Canolfan Dylan Thomas, Abertawe
**Pwnc:** Trais yn y Cartref

Nododd y Cadeirydd gynnwys y cyfarfod wrth Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

**2 Mawrth 2007**
**Lleoliad: Canolfan Gymunedol Gogledd Corneli**
**Pwnc:** Cynnal Iechyd, Lles ac Annibyniaeth Pobl Hŷn

**Janice Gregory**
**Cadeirydd**
**Mawrth 2007**